COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

Mr. D. Llywelyn

Cynllun Cyhoeddi

Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

a

Mynediad at ddata personol o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU

POLISI NEWYDD neu DDIWYGIEDIG	**Diwygiedig - F.6**
TEITL Y POLISI	**Cynllun Cyhoeddi Rhyddid Gwybodaeth**
AWDUR Y POLISI (Teitl Swydd)	**Karys Thomas, Swyddog Ymchwil**
DYDDIAD GWEITHREDU	**22/11/2012**
DYDDIAD ADOLYGU	**10/02/2021**
ADOLYGYDD	**Cheryl Gayther, Rheolwr Cydymffurfio a Pherfformiad**

Cynnwys

1. Rhagair 3

2. Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 – Eich Hawliau Chi, Ein Cyfrifoldebau Ni 3

3. Cynllun Cyhoeddi Enghreifftiol 4

4. Gwybodaeth Gyffredinol am Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys (Y Comisiynydd) 5

5. Manylion Cyswllt a Ffioedd 6

6. Cwynion, Sylwadau a Diogelu Data 8

7. Hawlfraint 8

8. Ceisiadau am Wybodaeth Bersonol 9

9. Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys – Dosbarthiadau Gwybodaeth 13

1. Rhagair

Fel Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, fy nod yw hyrwyddo gonestrwydd, tryloywder a thegwch ym mhob penderfyniad a wnaf. Rwyf wedi addo y byddaf yn gwasanaethu cyhoedd Dyfed-Powys yn hytrach nag unrhyw blaid wleidyddol neu unigolyn. Bydd y Cynllun Cyhoeddi hwn yn rhoi gwybodaeth amdanaf i a'm cyfrifoldebau, a busnes Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Bydd yn cael ei adolygu a'i wella'n barhaus.

2. Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 – Eich Hawliau Chi, Ein Cyfrifoldebau Ni

Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn rhoi hawl mynediad at bob math o wybodaeth gofnodedig a ddelir gan gyrff cyhoeddus, yn nodi eithriadau i'r hawl hwnnw, ac yn gosod nifer o ymrwymiadau ar gyrff cyhoeddus. Rhaid i unrhyw un sy'n gwneud cais i gorff cyhoeddus am wybodaeth gael gwybod pa un ai a yw'r corff cyhoeddus yn dal yr wybodaeth honno, ac, yn amodol ar eithriadau, rhaid rhoi'r wybodaeth honno i'r unigolyn. Mae eithriadau'n cynnwys gwybodaeth sy'n sensitif yn fasnachol a gwybodaeth bersonol.

Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn rhoi'r hawl i ymgeiswyr ofyn am wybodaeth sy'n cael ei dal gan gyrff cyhoeddus, ond nid yw'n rhoi hawl mynediad at wybodaeth bersonol amdanoch chi. Os ydych chi'n dymuno gwneud cais am ddata personol, dylid trin hyn fel Cais Gwrthrych am Wybodaeth o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU. Mae'n bosibl y bydd rhywfaint o ddata am bobl eraill ar gael; fodd bynnag, rhaid iddo beidio â thorri unrhyw un o egwyddorion diogelu data'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU. Ceir rhagor o wybodaeth am y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar http://www.ico.org.uk/.

Mae Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys wedi ymrwymo i gyhoeddi gwybodaeth sydd ar gael o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn rheolaidd. Diben ein Cynllun Cyhoeddi yw rhoi gwybod i chi pa wybodaeth sydd ar gael yn rhwydd gennym heb

i chi orfod gofyn amdani. Drwy fod ar gael yn rhwydd, yr hyn a olygwn yw bod yr wybodaeth ar gael ar ein gwefan www.dyfedpowys-pcc.org.uk, gellir ei chael gennym ni os byddwch chi'n gwneud cais drwy lythyr, e-bost neu alwad ffôn, neu gellir ei phrynu gennym.

Pan fyddwch chi'n gofyn i ni am wybodaeth, bydd yn rhaid i ni wneud y canlynol:

- Rhoi gwybod i chi yn ysgrifenedig pa un ai a ydym yn dal y wybodaeth rydych wedi gofyn amdani ai peidio.
- Os ydym ni, a bod yr wybodaeth rydych chi wedi'i cheisio ar gael fel mater o drefn ac yn gallu cael ei chyrchu drwy wefan y Comisiynydd, dylech dderbyn ymateb o fewn pum diwrnod gwaith.
- Os nad yw'r wybodaeth ar gael fel mater o drefn, byddwn ni'n rhoi'r wybodaeth i chi o fewn 20 diwrnod gwaith, oni bai ei bod wedi'i heithrio.

3. Cynllun Cyhoeddi Enghreifftiol

Mae Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys wedi mabwysiadu Cynllun Cyhoeddi Enghreifftiol y Comisiynydd Gwybodaeth.

Drwy fabwysiadu'r Cynllun hwn, mae Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys yn ymrwymo i sicrhau bod gwybodaeth yn y categorïau canlynol ar gael, yn amodol ar gostau dilys ac eithriadau perthnasol:-

- Pwy ydyn ni a beth rydyn ni'n ei wneud
- Beth rydyn ni'n ei wario a sut rydyn ni'n ei wario
- Ein blaenoriaethau a'n cynnydd
- Sut rydyn ni'n gwneud penderfyniadau
- Ein polisïau a'n gweithdrefnau
- Rhestri a Chofrestri
- Y gwasanaethau a Gynigir gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

Mae'r Cynllun yn ymrwymo Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh):-

- I gyhoeddi, neu wneud ar gael mewn modd arall fel mater o drefn, gwybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth amgylcheddol, a gedwir gan SCHTh ac sy'n syrthio o fewn y categorïau uchod;
- I nodi'r wybodaeth a ddelir gan SCHTh ac sy'n syrthio o fewn y categorïau uchod;
- I gyhoeddi'n rhagweithiol, neu wneud ar gael mewn modd arall fel mater o drefn, gwybodaeth yn unol â'r datganiadau a gynhwysir o fewn y Cynllun hwn.
- I gynhyrchu a chyhoeddi'r dulliau a ddefnyddir i ofalu bod yr wybodaeth benodol ar gael fel mater o drefn fel bod modd i'r cyhoedd ei hadnabod a'i chyrchu'n hawdd.
- I adolygu a diweddaru'n rheolaidd yr wybodaeth y mae SCHTh yn trefnu ei bod ar gael o dan y Cynllun hwn.
- I lunio rhestr o unrhyw ffioedd a godir ar gyfer cael mynediad at yr wybodaeth y trefnir ei bod ar gael yn rhagweithiol;
- I drefnu bod y Cynllun Cyhoeddi hwn ar gael i'r cyhoedd.

4. Gwybodaeth Gyffredinol am Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys (Y Comisiynydd)

Yn sgil y newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, peidiodd Awdurdodau Heddlu â bodoli ar 21 Tachwedd 2012 a daeth Comisiynydd Heddlu a Throseddu i gymryd eu lle ym mhob ardal heddlu.

Cynhaliwyd yr etholiad cyntaf am Gomisiynydd Heddlu a Throseddu ar 15 Tachwedd 2012, a bu'r ymgeisydd llwyddiannus cyntaf yn gwasanaethu am gyfnod o dair blynedd a hanner. Wedi hynny cynhelir yr etholiadau bob pedair blynedd.

Beth yw rôl CHTh?

Mae’r Comisiynydd yn sicrhau bod anghenion plismona cymunedau Dyfed-Powys yn cael eu diwallu mor effeithiol â phosibl, gan ddod â chymunedau’n agosach at yr heddlu, adeiladu hyder yn y system ac adfer ymddiriedaeth.

Ei waith yw gwrando ar y cyhoedd ac yna ymateb i'w hanghenion, gan ddod â mwy o lais cyhoeddus i blismona. Bydd y Comisiynydd yn rhoi llais i'r cyhoedd ar y lefel uchaf, ac yn galluogi’r cyhoedd i sicrhau bod eu heddlu yn atebol.

Y nod cyffredinol yw lleihau troseddu a chyflenwi gwasanaeth heddlu effeithiol ac effeithlon o fewn ardal Dyfed-Powys. Mae'r Llywodraeth wedi amlinellu pum rôl allweddol y Comisiynydd:

1. Cynrychioli pawb sy'n byw ac yn gweithio yn y cymunedau yn eu hardal heddlu ac adnabod eu hanghenion plismona
2. Gosod blaenoriaethau sy'n bodloni'r anghenion hynny trwy gytuno ar gynllun strategol lleol i'r Heddlu
3. Dal y Prif Gwnstabl i gyfrif am gyflawni'r blaenoriaethau hyn mor effeithiol ac effeithlon â phosibl
4. Gosod cyllideb yr Heddlu a gosod y praesept (elfen blismona’r Dreth Gyngor)
5. Penodi Prif Gwnstabl, a’i ddiswyddo os oes angen

Y Prif Gwnstabl sydd dal yn arwain ac yn rheoli Swyddogion a Staff yr Heddlu. Cyfrifoldeb y Prif Gwnstabl yw gweithrediadau’r Heddlu, pwy sy’n cael ei arestio a sut y cynhelir ymchwiliadau.

5. Manylion Cyswllt a Ffioedd

Manylion Cyswllt

Prif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am ein Cynllun Cyhoeddi. Yr unigolyn sy’n gyfrifol am gynnal a rheoli’r Cynllun Cyhoeddi yw’r:

Rheolwr Cydymffurfiaeth a Pherfformiad
Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys
Pencadlys yr Heddlu
Rhif Ffôn: 01267 226440
E-bost: opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk
Cyfeiriad gwe: www.dyfedpowys-pcc.org.uk

Rhestr Brisiau

O dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, mae gan y Comisiynydd y pŵer i wrthod darparu gwybodaeth mewn rhai amgylchiadau, oni bai bod cost gwneud hynny'n cael ei dalu gan yr ymgeisydd.

Ar gyfer pob dosbarth o wybodaeth, mae'r tabl isod yn nodi pa un ai a yw'r dosbarth hwnnw'n cynnwys gwybodaeth y gellir codi ffi amdani, a'r gyfundrefn brisio a allai fod yn gymwys.

Am ddim ar y wefan:	Nid chodir tâl gennym ni, ond bydd rhaid i'r defnyddiwr, wrth gwrs, dalu unrhyw gostau a godir gan ei ddarparwr gwasanaeth rhyngrwyd a/neu gwmni ffôn yn ogystal â chostau personol ar gyfer argraffu, llungopïo ac ati. I'r sawl nad oes ganddynt gyswllt rhyngrwyd, byddwn yn darparu un copi wedi'i argraffu o gyhoeddiad unigol, fel sydd ar y wefan, am ddim o'r cyfeiriad cyswllt uchod.
Am dâl ar y wefan:	Codir tâl ar gyfer copïau niferus o gyhoeddiadau neu allbrintiau niferus o'n gwefan, neu gopïau o ddeunydd archif nad yw bellach ar y wefan. Y gost fydd 15c y daflen ynghyd â chludiant. Byddwn yn rhoi gwybod i chi am y gost pan fyddwn ni'n derbyn eich cais. Bydd y tâl yn daladwy ymlaen llaw.

Copi caled am ddim:	Llyfrynnau, taflenni neu gyfnodolion a gyhoeddir gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn ddi-dâl.
Copi caled am dâl:	Copi papur rhwym, cryno ddisg neu gynnyrch arall â chost fel y dangosir yn ein rhestr gyhoeddi. Os bydd tâl yn gymwys, byddwn yn eich hysbysu o'r gost a'r rhesymau am godi'r cyfryw gost. Bydd unrhyw dâl yn daladwy ymlaen llaw.

6. Cwynion, Sylwadau a Diogelu Data

Os ydych yn credu nad ydym wedi darparu gwybodaeth yn unol â'n Cynllun, dylech ysgrifennu yn y lle cyntaf at Bennaeth Staff a Swyddog Monitro Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Byddwn ni'n anelu i ymdrin â'ch cwyn o fewn 10 diwrnod gwaith. Os ydych chi'n anfodlon â'r ymateb, cewch ofyn am i'r mater gael ei adolygu'n fewnol. Bydd adolygiadau mewnol yn cael eu cwblhau yn brydlon ac anfonir ymateb atoch o fewn 20 diwrnod gwaith i'ch cais pellach.

Os ydych chi dal yn anfodlon ar ôl yr adolygiad mewnol, cewch gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth.

7. Hawlfraint

Gallai cyrff gwahanol fod yn berchen ar hawlfraint y deunydd a gynhwysir yn ein Cynllun.

Hawlfraint SCHTh Dyfed-Powys
Yn achos deunydd lle'r ydym ni'n berchen ar yr hawlfraint, gellir ei atgynhyrchu yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar gyfer ymchwil neu astudiaeth breifat, neu i'w ddosbarthu'n fewnol o fewn sefydliad. Mae hyn yn amodol ar atgynhyrchu'r deunydd yn gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Lle mae deunydd yn cael ei ailgyhoeddi neu ei gopïo i eraill, mae'n

rhaid enwi ffynhonnell y deunydd a chydnabod ein hawlfraint. Mae hawlfraint ar logo SCHTh Dyfed-Powys hefyd, ac ni ellir ei atgynhyrchu heblaw fel y mae'n ymddangos ar ddeunydd sydd wedi'i gopïo.

Deunydd Arall â Hawlfraint

Efallai y bydd hawlfraint rhywfaint o'r deunydd rydyn ni'n ei gynnwys yn ein Cynllun yn eiddo i drydydd parti. Nid yw ein hawl i ddal a defnyddio deunydd o'r fath yn estyn i bobl eraill. Mae'n rhaid i chi sicrhau awdurdod gan y daliwr/dalwyr hawlfraint perthnasol os ydych chi'n dymuno copïo neu atgynhyrchu deunydd o'r fath.

8. Ceisiadau am Wybodaeth Bersonol

O dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU, mae gennych hawl statudol i gael mynediad at ddata personol rydyn ni'n ei ddal amdanoch chi ar gyfrifiadur neu mewn ffeil strwythuredig, h.y. ar bapur. Mae gennych hawl hefyd i ddisgwyl i ni, fel y rheolwr data, sicrhau bod eich data:

- Yn cael ei brosesu'n deg ac yn gyfreithlon, ac mewn modd tryloyw
- Wedi'i gasglu ar gyfer dibenion penodol, eglur a chyfreithiol
- Yn ddigonol, yn berthnasol ac wedi'i gyfyngu i'r hyn sy'n ofynnol
- Yn gywir, ac yn cael ei ddiweddaru lle bo angen
- Ddim yn cael ei gadw ar ffurf sy'n caniatáu'ch adnabod am fwy nag sydd angen
- Yn cael ei ddiogelu yn derbyn prosesu anghyfreithlon neu anawdurdodedig ac yn erbyn difa, colled neu ddifrod damweiniol
- Yn cael ei brosesu'n unol â'ch hawliau fel gwrthrych data

At ddibenion y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, "data personol" yw gwybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn byw y gellir ei adnabod. Yr unigolyn neu'r sefydliad sy'n rheoli'r diben a'r modd y prosesir data yw'r "rheolwr data". Ceir rhagor o wybodaeth am y Rheoliad

Diogelu Data Cyffredinol y DU ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth www.ico.org.uk, neu o'r cyfeiriad a roddir isod.

Gwybodaeth y mae SCHTh Dyfed-Powys yn Rheolwr Data ar ei chyfer

Os mai ni yw'r rheolwr data, mae gennych hawl i wybod pa un ai a ydym yn dal data amdanoch chi, ac os ydym:

- Dibenion prosesu'ch data
- Ein cyfnodau cadw ar gyfer y data hwnnw
- Gyda phwy y rhennir eich data

Mae gennych hawl hefyd i gael copi o'r wybodaeth ynghyd ag esboniad o unrhyw dermau annealladwy, acronymau neu godau.

Os ydych chi'n dymuno gwneud cais am fynediad i'ch data personol, a elwir yn "gais gwrthrych am wybodaeth", dylech ysgrifennu at y Pennaeth Staff a Swyddog Monitro yn y cyfeiriad uchod. Mae'n rhaid i chi gyflwyno prawf o'ch hunaniaeth (llungopi o'ch pasbort neu drwydded yrru gyfredol). Bydd hefyd angen i ni gael y manylion y bydd eu hangen i ddod o hyd i'r wybodaeth rydych chi'n ei cheisio. Bydd cais am fynediad at ddata personol yn cael ei drin yn gyflym, ac ym mhob achos o fewn mis ar ôl derbyn y cais a'r prawf hunaniaeth priodol.

Os ydych chi'n ystyried nad yw cais gennych chi am fynediad i'ch eich data personol wedi cael ei drin yn gywir, medrwch:

- Ysgrifennu at y Pennaeth Staff a Swyddog Monitro yn y cyfeiriad a amlinellir yn yr adran 'Manylion Cyswllt', gan geisio datrysiad i'ch cwyn, neu
- Ysgrifennu at y Comisiynydd Gwybodaeth, a benodwyd ar gyfer ymdrin â chwynion o'r fath yn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Sir Gaer SK9 5AF

Gwefan: www.ico.org.uk

Mae pwerau gan y Comisiynydd Gwybodaeth i asesu pa un ai a fu methiant i gydymffurfio â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU. Gall y Comisiynydd Gwybodaeth gychwyn gweithdrefnau gorfodi os yw'n fodlon bod yr egwyddorion diogelu data wedi'u torri. Gall y Comisiynydd Gwybodaeth hefyd argymell eich bod yn gwneud cais i'r llys gyda honiad o fethu â chydymffurfio â darpariaethau'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU. Efallai bydd y llys yn gwneud gorchymyn sy'n mynnu cydymffurfiaeth â'r darpariaethau hynny, a gall ddyfarnu iawndal am unrhyw niwed rydych chi wedi'i ddioddef hefyd, yn ogystal ag unrhyw straen cysylltiedig.

Gwybodaeth nad yw SCHTh Dyfed-Powys yn "Rheolwr Data" ar ei chyfer

Mewn sawl achos, yr Heddlu, ac nid SCHTh, sy'n dal gwybodaeth bersonol. Mae Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu'n cynnwys gwybodaeth ynghylch erlyniadau, euogfarnau a rhybuddion. Prif Swyddogion y Gwasanaetha Heddlu yw "rheolwyr data" yr wybodaeth hon ac nid Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys.

Mae gennych hawl i gael gwybod gan Brif Swyddog pa un ai a oes gwybodaeth yn cael ei dal amdanoch ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu, a hawl i gael copi o'r wybodaeth honno. Bydd y Prif Swyddog yn rhoi'r wybodaeth honno os yw'n fodlon ynglŷn â phwy ydych chi. Mae'n bosibl y bydd y Prif Swyddog yn gwrthod mynediad at yr wybodaeth hon mewn achosion lle caiff yr wybodaeth ei dal er mwyn atal neu ddatrys trosedd, neu ddal neu

erlyn troseddwyr, a lle byddai rhyddhau'r wybodaeth yn debygol o ragfarnu unrhyw un o'r dibenion hyn.

Mae Heddluoedd yn darparu ffurflen ar gyfer symleiddio arfer eich hawliau am wybodaeth sydd ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu. Yn achos Heddlu Dyfed-Powys, dylech gysylltu â'r:

Swyddfa Diogelu Data
Pencadlys Heddlu Dyfed-Powys
Llangynnwr
Caerfyrddin
SA31 2PF
Ffôn: 101 neu 01267 222020 os ydych yn galw o du allan i ardal yr heddlu

Cyfeiriad gwe: www.dyfed-powys.police.uk

Ceisiadau dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol

Nid yw SCHTh Dyfed-Powys yn dal unrhyw wybodaeth o dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol. Mae unrhyw wybodaeth o'r fath yn cael ei dal gan Heddlu Dyfed-Powys. Os ydych chi eisiau gwneud cais am wybodaeth o dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, dylech ysgrifennu at:

Yr Adran Rhyddid Gwybodaeth
Heddlu Dyfed-Powys
Pencadlys yr Heddlu
Blwch Post 99
Llangynnwr
Caerfyrddin
SA31 2PF
E-bost: FOI@dyfed-powys.pnn.police.uk

9. Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys – Dosbarthiadau Gwybodaeth

9.1 PWY YDYN NI A BETH RYDYN NI'N EI WNEUD

Talfyriadau: CHTh/DGHTh – Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu / Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throseddu

	Gwybodaeth	Dolen
Pwy ydyn ni a beth rydyn ni'n ei wneud	Enw'r CHTh/DGHTh	Pwy wyf i
	Strwythur staff uwch SCHTh	Y tîm
	Cyflog CHTh/DGHTh	
	Strwythur staff SCHTh	
	Amlinelliad cyffredinol o gyfrifoldebau	
	Demograffeg staff gan gynnwys menywod, pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, anabledd	
	Manylion cyswllt, gan gynnwys cyfeiriad ar gyfer gohebiaeth	Cysylltu
	Ardal weithredu ddaearyddol	Y Cynllun Heddlu a Throseddu
	Trefniadau gweithredu'r Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd	Polisi Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd
	Perthnasau â chyrff eraill	Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar y Cyd
Beth rydyn ni'n ei wario a sut rydyn ni'n ei wario	Cyfanswm cyllideb SCHTh	Cyllideb y swyddfa
	Datganiad blynyddol o gyfrifon	Datganiad o Gyfrifon
	Datganiad naratif sy'n ymwneud â'r datganiad blynyddol o gyfrifon	
	Datganiad llywodraethu blynyddol	
	Incwm arall, gan gynnwys grantiau	
	Hysbysiad o gasgliad archwiliad o gyfrifon	Adroddiad archwiliad blynyddol
	Praesept	Hysbysiad Treth Gyngor
	Gwariant arfaethedig	

	Strategaeth fuddsoddi flynyddol	Strategaeth Gyfalaf / Polisi Balansau a Chronfeydd Wrth Gefn / Strategaeth Rheoli'r Trysorlys
	Grantiau ar gyfer lleihau trosedd ac anhrefn	Cronfa'r Comisiynydd
	Gwariant SCHTh a'r Heddlu dros £500	Gwariant dros £500
	Manylion cytundebau a thendrau (dros £10,000)	Trwy Bluelight / gwerthwchigymru
	Manylion cytundebau a thendrau (o dan £10,000)	
	Treuliau a lwfansau a dalwyd neu a godwyd gan y CHTh ac aelodau staff uwch a gyflogir ganddo	Fy lwfansau a'm treuliau
	Llythyr archwilio blynyddol	Llythyr Archwilio Blynyddol o fewn papurau'r Cyd-bwyllgor Archwilio
	Adroddiadau archwiliadau ariannol	Adroddiadau Cynnydd o fewn papurau'r Cyd-bwyllgor Archwilio
	Rheoliadau ariannol mewnol ac awdurdod dirprwyedig	Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol
	Y Cynllun Heddlu a Throseddu	Y Cynllun Heddlu a Throseddu
	Adroddiad blynyddol	Adroddiad blynyddol
	Adroddiad blynyddol ar yr iaith Gymraeg	
	Adroddiadau a gyflwynwyd i SCHTh sy'n nodi darpariaeth gwasanaeth, asesiadau perfformiad ac asesiadau gweithredol yr heddlu	Papurau Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu
	Gwybodaeth ystadegol a roddwyd i SCHTh	

Ein blaenoriaethau a'n cynnydd	Gwybodaeth am berfformiad SCHTh	Adroddiadau diweddaru chwarterol i'r Panel Heddlu a Throseddu
	Nifer y materion ymddygiad / cwynion a ddygwyd i sylw CHTh gan y Panel Heddlu a Throseddu	Papurau'r Panel Heddlu a Throseddu
	Adroddiadau gan archwilwyr ac arolygwyr allanol	Perfformiad yr Heddlu
	Ymatebion i AHEM ynghylch adroddiadau archwiliadau ar yr Heddlu	Ymatebion i Asesiadau
	Copi o unrhyw adroddiad y mae SCHTh ei angen gan ALl / y CS mewn perthynas â throsedd ac anhrefn	Bwrdd Cyfiawnder Troseddol
	Cynllun cyflenwi'r Gymraeg	Hysbysiad cydymffurfiaeth â'r iaith Gymraeg a chamau gweithredu
	Asesiadau effaith ar breifatrwydd	Strategaethau a Pholisïau
	Amserlen o gyfarfodydd sydd ar agor i'r cyhoedd	Digwyddiadau
	Agendâu, papurau cefndir a chofnodion cymeradwy pob cyfarfod cyhoeddus	Atebolrwydd
	Cofnodion cyfarfodydd lle y trafodir materion sydd o ddiddordeb arbennig i'r cyhoedd	
	Cofnodion o bob penderfyniad sydd o ddiddordeb arbennig i'r cyhoedd	Cofnodion Penderfyniad
	Gweithdrefnau, ffeithiau a dadansoddiadau o ffeithiau a ddefnyddiwyd i wneud penderfyniadau	
Sut rydyn ni'n gwneud penderfyniadau	Ymgynghoriadau cyhoeddus	Adroddiadau ymgynghori
	Polisïau a gweithdrefnau ar gyfer cynnal busnes	Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol
	Trefniadau caffael a chomisiynu	

	Darpariaeth gwasanaethau e.e. trin ceisiadau am wybodaeth	Mynediad at wybodaeth rydyn ni'n dal
	Cyflogi staff	Polisi AD
	Gweithdrefnau ymddygiad a chwynion	
Ein polisïau a'n gweithdrefnau	Polisi chwythu'r chwiban	
	Polisïau data personol a rheoli cofnodion	Polisi ar gyfer cadw a gwaredu
	Cynlluniau ffeil	Amh.
	Amcanion cydraddoldeb	Cynllun Cydraddoldeb Strategol
	Arddangosiad o gydymffurfiaeth â'r ddyletswydd sector cyhoeddus	Adroddiad Blynyddol
	Nodi dosbarthiadau gwybodaeth y bydd yr awdurdod cyhoeddus yn cyhoeddi	Y Cynllun Hwn
	Nodi'r modd y bydd gwybodaeth ym mhob dosbarth yn cael ei chyhoeddi	
	Nodi pa un ai a yw defnydd ar gael am ddim neu am dâl	
	Polisïau a gweithdrefnau ar gyfer codi tâl (e.e. cais gwrthrych am wybodaeth)	
Rhestri a Chofrestri	Cofrestr asedau	Strategaeth Ystadau Hysbysiad
	Cofrestr asedau gwybodaeth	Preifatrwydd Cofrestr
	Cofrestr buddiannau	Buddiannau
	Cofrestr anrhegion a lletygarwch CHTh / DGHTh ac aelodau staff	Cofrestr anrhegion a lletygarwch
	Cofnodion datgelu rhyddid gwybodaeth	Cofnodion datgelu

Y gwasanaethau rydyn ni'n cynnig	Gwybodaeth am unrhyw wasanaethau a ddarperir gan SCHTh	Gwasanaethau sydd ar gael i chi
	Taflenni a llyfrynnau esboniadol	Copi caled ar gael gan y swyddfa ar gais
	Datganiadau i'r wasg	Newyddion
	Unrhyw wasanaethau y mae hawl gennym adennill ffi ar eu cyfer, gan gynnwys y ffioedd	Y Cynllun Hwn